# Cylchlythyr CFfI Ynys Môn

## Noson o hwyl

A chymdeithasu wrth i'r gystadleuaeth Pŵl, darts a thennis bwrdd gael ei gynnal yn YU Bodedern eleni. Diolch yn fawr iawn i'r Ysgol am y croeso, a llongyfarchiadau i bawb gymrodd ran.

## Datblygu sgiliau darllen a chyfathrebu

Llongyfarchiadau mawr iawn i Osian Iorwerth, Elin Rowlands a Cerys Tudor o CFfI Llangefni am ennill y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus o dan 14 oed, a chafodd ei gynnal yn Cae Sioe Môn eleni – diolch am y croeso!

## Datblygu sgiliau oes

Llongyfarchiadau mawr iawn i Lia Huws, Cerys Parry a Llio Hughes o CFfI Bodedern am ennill y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus o Dan 16 oed eleni, a chafodd ei gynnal yn Neuadd Llynfaes – diolch yn fawr iawn am y croeso cynnes, ac i Aelodau Merchaid y Wawr Bodwrog am y wledd o fwyd oedd yn ein disgwyl

## LLONGYFARCHIADAU

Mawr iawn i Caitlin Jones, o CFfI Bodedern am gael ei dewis yn Lysgennad Sioe Môn eleni, ac i Gareth Parry o CFfI Rhosybol am gael ei dewis yn Is-lysgennad yn ogystal – da iawn chi!

## Llongyfarchiadau

Mawr iawn i un o gyn-aelodau a chyn-Gadeirydd CFfI Môn: Ieuan Williams, am gael ei ethol yn Gadeirydd Sioe Môn eleni, a phob lwc i ti yn dy swydd newydd

## Sôn am ddadla'!

Cafwyd wledd o adloniant, dadlau tanbaid a hwyliog, a noson o gymdeithasu a rhannu barn wrth i'n cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus gael ei gynnal yn Neuadd Bodffordd eleni! Llongyfarchiadau mawr iawn i Manon Parry, Guto Jones, Rhiannon Morgan a Gwenno Evans o CFfI Llangefni am ddod i'r brîg, a diolch yn fawr iawn am y croeso cynnes!

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

# Cylchlythyr
# CFfI Ynys Môn

## ‘O YNDY MAE O! O NA, DIO DDIM”

Llongyfarchiadau mawr iawn i CFfI Llangefni a Dwyran am gynrychioli CFfI Ynys Môn yng nghystadleuaeth pantomeim CFfI Cymru eleni – cafwyd ddiwrnod llawn hwyl, a profiad gwych i’r aelodau wrth berfformio ar y llwyfan fawr.

## Llongyfarchiadau

I bawb fuodd yn ran o noson wobrwyo Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn eleni, a diolch yn fawr i bawb o CFfI Ynys Môn am eu cymorth yn paratoi’r gwledd ar eu cyfer.

## Diwrnod Gwaith Maes, Sir Gar

Llongyfachiadau mawr iawn i bawb fuodd yn cymryd rhan yn Niwrnod Gwaith Maes CFfI Cymru, draw yn Sir Gar eleni. Cyfle gwych i fagu hyder, a sgiliau gwledig defnyddiol wrth dorchi llawes mewn amryw weithgareddau, megis: ffensio, barnu stoc, effeithlonrwydd gyda diogelwch.

## Noson Barnu

Cynhelir noson barnu stoc ddiwedd Ebrill, er mwyn datblygu sgiliau cefn gwlad, magu hyder, a datblygu sgiliau cyfathrebu aelodau, a chael ambell bwynt cyn y Sioe Fawr!

## Cyhoeddi Eisteddfod Môn, a’r testunnau

Cynhalwyd noson i gyhoeddi Eisteddfod Môn 2019 a’r testunnau– gan mae CFfI Ynys Môn sy’n cymryd yr awennau i drefnu’r digwyddiad yma, ym Mis Mawrth, 2019. Diolch i Band 6, a Cartio Môn

## Cynnig hyfforddiant

‘Blue Seal’ i’n haelodau. Cynhalwyd dau ddiwrnod llawn o gneifio, draw yn Fferm Ysgellog, er mwyn cynnig y cwrs hwn i’r aelodau, ble‘r oedd y British Wool Marketing Board yno i’w haddysgu a’u mentro, ac ar y diwedd yn rhoi tystysgrif ‘Blue Seal’ iddynt. Hoffai’r Mudiad ddiolch i deulu Ysgellog am y croeso, i BWMB, ac i Cneifio Ring am ein noddi.

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

# Cylchlythyr
# CFfI Ynys Môn

## Rali CFfI Môn 2018

Cafwyd wledd o adloniant, cystadleuthau a digwyddiadau yn ein Rali blynyddol eleni, draw ar Faes Sioe Môn ym Mis Mehefin. Gydag amrywiaeth eang o gystadleuathau, mae rhywbeth at ddant pawb, a braf iawn oedd gweld yr aelodau yn mwynhau'r diwrnod! Llongyfarchiadau mawr iawn i CFfI Rhosybol am ennill y diwrnod

## Cyd-weithio

Buem yn cyd-weithio gydag Cymdeithas Amaethyddol Môn, wrth iddym baratoi'r lluniaeth ar gyfer y ffair hen bethau eleni. Diolch i'r aelodau ddaru helpu, a diolch i'r Gymdeithas am y cyfle i gyd-weithio hefo chi.

## CFfI Môn draw yn Eisteddfod Môn

Yr oeddwm yno hefo stondin llawn gwybodaeth am y mudiad, ac hefyd ein testunnau Eisteddfod 2019, a'r raffl fawr yn ogystal. Diolch i bawb ddaru ddod draw am sgwrs!

## Sioe Frenhinol Cymru

Gyda'r Sioe Fawr wedi cyrraedd, yr oedd yr aelodau hefyd yn barod i gymryd rhan! O barnu stoc, i gogino, tynnu rhaff i ddownsio, roedd CFfi Ynys Môn yno yn cystadlu. Diolch yn fawr iawn i bob un aelod ddaru gymryd rhan, i'r holl deuluoedd oedd yno'n cefnogi, ac am fod yn dacsi! Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb fynychodd!

## Sioe Môn!

I gloi'r tymor, buan iawn ddoth Sioe Môn, a sôn am wledd, a hwyl! Diolch i bawb ddaru ymweld a'n pabell, ac am ddod am sgwrs a phaned, mae'n braf iawn gweld cymaint o bobl yn mwynhau ein stondin, a diolch yn fawr i'r helpars!

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

Cylchlythyr

# CFfI Ynys Môn

## HER Y CADEIRYDD
## TAITH TRACTORAU

Eleni, tro Sioned Haf Williams oedd cymryd yr awennau, a meddwl am her y Cadeirydd, 2018. Dipyn o waith meddwl am her, heb son am ei gwblhau! Ar ôl dipyn o grafu pen, fe benderfynwyd mae dysgu dreifio tractor oedd yr her i Sioned. Felly, trefnwyd Taith Tractorau o'amgylch yr Ynys, ac ymweld a'r chwe Clwb. Wrth drafod hefo Mr Tom Jones, ein Llywydd eleni, fe benderfynwyd codi arian at ddau elusen arbennig: Ambiwlans Awyr Cymru, a Cancer Research UK.

Cafwyd ddiwrnod braf iawn, llawn hwyl a chymdeithasu o'amgylch yr Ynys, gydag aelodau, cyn-aelodau, ac ambell i hen law yn barod i godi arian tuag at yr elusennau arbennig yma. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb ddaru gymryd rhan, helpu mewn unrhyw ffordd, ac i deulu Castellior am adael iddym gael saib fach, paned ac ambel i fara brith ar y ffordd! Diolch hefyd i Ysgol Uwchradd Bodedern am adael iddym ni droi'r ysgol yn fân cychwyn i'r diwrnod.

Braf iawn yw cael cyhoeddi bod Sioned wedi cwblhau'r cwrs, ac wedi gallu dreifio tractor yr holl ffordd, ar ei phen ei hun (yn well na'r disgwyl!)

Fe gasglwyd £1100 ar y diwrnod, i'w rannu rhwng Ambiwlans Awyr Cymru a Cancer Research UK – diolch yn fawr iawn i chi gyd, ac i Sioned a Mr Tom Jones am drefnu'r digwyddiad yma.

## Rydym nawr ar Instagram!

Yn ogystal â Facebook a Trydar, rydym nawr ar Instagram!
Dilynwch ni: cffiynysmon

Os am fwy o wybodaeth, neu darganfod y digwyddiadau a chystadleuthau sy'n cael ei gynnal, bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rannu ar ein cyfryngau cymdeithasol

# Cylchlythyr
# CFfI Ynys Môn

## Ble i ddod o hyd i'ch Clwb lleol?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bodedern | Canolfan Bro Alaw | Nôs Fawrth | 7:30 – 9:00yh |
| Dwyran | Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel | Nôs Lun | 7:30 – 9:00yh |
| Llangefni | Canolfan CFfI Môn | Nôs Lun | 7:30 – 9:00yh |
| Llangoed | Neuadd Gymuned Llanddona | Nôs Lun | 7:30 – 9:00yh |
| Penmynydd | Neuadd Gymuned Penmynydd | Nôs Lun | 7:30 – 9:00yh |
| Rhosybol | Neuadd Gymuned Rhosybol | Nôs Fawrth | 7:30 – 9:00yh |

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

# Cylchlythyr
# CFfI Ynys Môn

## Dyddiadau i'ch dyddiadur……

20/10/18 – Eisteddfod CFfI Ynys Môn, Ysgol David Hughes, cychwyn am 1 o'r gloch

23/10/18 – Cystadleuaeth Barnu Carcas

06/11/18 – Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus CFfI Ynys Môn o'dan 16 a 26

07/11/18 – Cyfarfod Fforwm Ieuenctid CFfI Môn

17/11/18 – Eisteddfod CFfI Cymru, Y Bari

Ym Mis Rhagfyr mi fydd: Noson Gwis CFfI Ynys Môn, a Noson Garolau CFfI Ynys Môn

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

Facebook: **Ffermwyr Ifanc Môn**

Trydar/Twitter: **CFfI Ynys Môn**

Instagram: **CFfIYnysMôn**

**Ynys.mon@yfc-wales.org.uk**

Canolfan CFfI Ynys Môn, Cae Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW

# Cylchlythyr
# CFfI Ynys Môn

## Pantomeim CFfI Môn

Cafwyd wledd o adloniant, a thalent Môn ar ei orau wrth i aelodau'r Mudiad gymryd rhan yn y gystadleuaeth Pantomeim ym Mis Chwefror. Cynhalwyd y noson yng Nghanolfan Ucheldre, Caergybi, a hoffem ddiolch yn fawr i'r Ganolfan am y croeso cynnes, ac i Mrs Linda Brown a'i wyresau am eu gwaith caled o feirniadu!

## Llond bôl o chwerthin!

Llongyfarchiadau mawr iawn i CFfI Llangefni a Dwyran am ennill y gystadleuaeth Pantomeim eleni! Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb ddaru gymryd rhan, i'r hyfforddwyr am eu dysgu, rhieni am fod mor barod i fod yn dacsis, ac i'r gynulleidfa am ein cefnogi

## Ennillwyr y noson

Yn Fuddigol: CFfI Llangefni a Dwyran
Actor orau: Gareth Parry, Rhosybol
Actores orau: Non G Williams, Bodedern
Set orau: CFfI Bodedern
Llongyfarchiadau mawr iawn i chi gyd!

## Fforwm Ieuenctid

Cynhalwyd noson creu a blasu 'moctels' yn noswaith Fforwm Ieuenctid CFfI Ynys Môn ym Mis Fawrth – noson o hwyl a chymdeithasu, wrth i'n aelodau o dan 18 ddod at eu gilydd. Diolch i Cara Evans, CFfI Penmynydd am drefnu'r noson hon, ac edrychwn ymlaen at ddigwyddiadau eraill sydd i ddod yn y dyfodol!

## Llongyfarchiadau

Mawr iawn i Elliw Roberts o CFfI Rhosybol, am gael eu dewis yn Aelod Iau y flwyddyn, ac i Rhys Richards, CFfi Bodedern, am gael ei dewis yn Aelod Hyn y flwyddyn CFfI Môn eleni – da iawn chi!

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

# Cylchlythyr
# CFfI Ynys Môn

## Siarad Cyhoeddus Cymru

Llongyfarchiadau a diolch yn fawr iawn i'r aelodau wnaeth fynychu cystadleuthau Siarad Cyhoeddus CFfI Cymru, draw yn Lanfair-ym-Muallt eleni. Cyfle i fagu hyder, dysgu sgiliau newydd, a datblygu sgiliau cyfathrebu.

Rydym yn hynnod ddiolchgar i'n haelodau am gymryd rhan yn nigwyddiadau a chystadleuthau CFfI Môn, a Chymru, ac wrth gwrs yn ddiolchgar hefyd i'w rhieni am fod mor barod i helpu a bod yn dacsis i ymarferion – rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

## Digwyddiadau o'r Clybiau

Cynhalwyd CFfI Penmynydd noson bingo yng Nghanolfan Gymuned Penmynydd ym Mis Mawrth, ble roedd cyfle i gymdeithasu a dod i adnabod y gymuned leol – noson wych a llawn hwyl!

Perfformwyd CFfI Bodedern eu Pantomeim yn Neuadd Bentref Llynfaes, er mwyn creu noson o ddiolch i'r gymuned am adael iddynt ddefnyddio'r Neuadd tra'n ymarfer ar gyfer cystadleuaeth CFfI Môn.

Trefnwyd CFfI Bodedern 'Barti Pasg' yn ystod y gwyliau ar gyfer aelodau'r Clwb a'r Mudiad, er mwyn codi arian i'r clwb, yn ogystal â chronfa 'Defib' CFfI Môn. Diolch yn fawr I chi am noson hwyliog, a cyfle I gymdeithasu!

## Rydym nawr ar Instagram!

Yn ogystal â Facebook a Trydar, rydym nawr ar Instagram!
Dilynwch ni: cffiynysmon

Os am fwy o wybodaeth, neu darganfod y digwyddiadau a chystadleuthau sy'n cael ei gynnal, bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rannu ar ein cyfryngau cymdeithasol

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

# Cylchlythyr
# CFfI Ynys Môn

## Ble i ddod o hyd i'ch Clwb lleol?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bodedern | Canolfan Bro Alaw | Nôs Fawrth | 7:30 – 9:00yh |
| Dwyran | Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel | Nôs Lun | 7:30 – 9:00yh |
| Llangefni | Canolfan CFfI Môn | Nôs Lun | 7:30 – 9:00yh |
| Llangoed | Neuadd Gymuned Llanddona | Nôs Lun | 7:30 – 9:00yh |
| Penmynydd | Neuadd Gymuned Penmynydd | Nôs Lun | 7:30 – 9:00yh |
| Rhosybol | Neuadd Gymuned Rhosybol | Nôs Fawrth | 7:30 – 9:00yh |

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

# Cylchlythyr
# CFfI Ynys Môn

## Dyddiadau i'ch dyddiadur......

26-27/05/18 – Gweithio ar y cyd hefo Cymdeithas Amaethyddol Môn yng Ngwyl hen bethau ar gae Sioe Môn

09/06/18 – Rali CFfI Ynys Môn – Cae Sioe Môn

09/06/18 – Dawns Rali CFfI Ynys Môn – Pafiliwn Môn

28/06/18 – Gŵyl lawnsio a chyhoeddi testunnau Eisteddfod Môn, 2019

15/08/18 – Gig Sioe Môn – Nôs Fercher Sioe Môn

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

Facebook: **Ffermwyr Ifanc Môn**

Trydar/Twitter: **CFfI Ynys Môn**

Instagram: **CFfIYnysMôn**

**Ynys.mon@yfc-wales.org.uk**

Canolfan CFfI Ynys Môn, Cae Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW

# Cylchlythyr CFfI Môn

## Llongyfarchiadau

i Sioned Edwards o Glwb Dwyran am gael ei hethol yn Gadeirydd Pwyllgor Marchnata CFfI Cymru, a Cain Owen o Glwb Llangefni yn Gadeirydd y Fforwm Ieuenctid, yn ystod CCB CFfI Cymru

## CFfI Môn yn cefnogi'r Elusen Macmillan

Cafwyd wledd o gacennau ym Mhwyllgor Gwaith y Mudiad ar y 5ed o Hydref, er mwyn codi arian tuag at Elusen Macmillan, fel rhan o'u hymgyrch 'Bore Goffi mwya'r byd'

## Doniau Môn ar ei orau

Cafwyd wledd o adloniant yn ystod Eisteddfod CFfI Môn draw yn Ysgol David Hughes, Borthaethwy, dechrau mis Tachwedd, gydag aelodau yn magu hyder wrth berfformio ar y llwyfan fawr, ac yn cystadlu yn yr adran Gwaith Cartref – talent Môn ar ei orau!

## Diwrnod Gwaith Maes

Cynhalwyd DGM Ynys Môn ar Gae Sioe Môn ar y 7fed ar 8fed o Hydref, gan rhoi'r cyfle i aelodau ddysgu sgiliau cefn gwlad: ffensio, effeithlonrwydd diogelwch a beirniadu stôc

## Diolch

A llongyfarchiadau mawr iawn i aelodau CFfI Môn, eu rhieni, swyddogion ac arweinyddion Clybiau am eu cymorth tra'n paratoi am Eisteddfod CFfI Cymru – cafodd aelodau Ynys Môn lwyddiant ysgubol yn Venue Cymru, Llandudno

## Magu sgiliau oes

Wrth gystadlu a chymdeithasu yn Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Môn. O weithgareddau crefft i feirniadu gwartheg eidion, godro, ŵyn a charcas, roedd hyn yn gyfle i ddatblygu sgiliau oes a chefn gwlad yr aelodau, a chefnogi digwyddiadau Ynys Môn

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

# Cylchlythyr CFfI Môn

## 'Ffasiwn a Ffis' yn codi £600 i'r Elusen Tommy's

Cynhalwyd noson 'Ffasiwn a Ffis' am y tro cyntaf eleni, er mwyn codi arian tuag at yr Elusen arbennig Tommy's, sy'n ariannu gwaith ymchwil i arbed colli babanod cyn eu genedigaeth

## Aelodau Môn yn Ffair Aeaf Builth

Llongyfarchiadau mawr iawn, a diolch i'r aelodau wnaeth gynrychioli CFfI Môn wrth gystadlu yn Ffair Aeaf Sioe Frenhinol Cymru

## Diolch

I Mrs Jane Foulkes (Cyn-Lywydd), a Sioned Edwards (Cyn-Gadeirydd) am eu gwaith caled yn ystod eu tymor fel Swyddogion CFfI Môn. Cafwyd noson o ddathlu a chymdeithasu yng Ngwesty Bae Trearddur, a chroesawu'r Swyddogion newydd

## Carolau o Fodffordd

Cynhalwyd noson Garolau yng Nghapel Gad Bodffordd cyn y Nadolig, gydag aelodau'r Mudiad yn cymryd rhan yn yr amrywiaeth eitemau: canu, llefaru a deuawd doniol! Casglwyd £100 i'r Capel, ac hoffem ddiolch i Gymuned Bodffordd am eu croeso cynnes

## Be' 'di'r ateb??!!

Cwestiwn oedd yn cael ei glywed yn aml yn ystod y noson gwis sirol! Diolch i Glwb Rygbi Llangefni am eu cefnogaeth, ac i Huw a Teleri Jones am baratoi a chyflwyno'r cwis!

Ynys.mon@yfc-wales.org.uk

# Cylchlythyr

# CFfI Môn

## Dyddiadau i'ch dyddiadur……

06/03/18 – Siarad Cyhoeddus 'dan 21 + 14oed – Neuadd Gymuned Rhosybol

12/04/18 – Sioe Ffasiwn CFfI Môn – Neuadd Fwyd Cae Sioe Môn

13/05/18 – 'Tractor Run' CFfI Môn – o'amgylch Clybiau'r Sir

09/06/18 – Rali CFfI Môn – Cae Sioe Môn

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

Facebook: **Ffermwyr Ifanc Môn**

Trydar/Twitter: **CFfI Ynys Môn**

Bodedern – Nôs Fawrth @ 7:30yh
Dwyran – Nôs Lun @ 7:30yh
Llangefni – Nôs Lun @ 7:30yh
Llangoed – Nôs Lun @ 7:30yh
Penmynydd – Nôs Lun @ 7:30yh
Rhosybol – Nôs Fawrth @ 7:30yh

**Ynys.mon@yfc-wales.org.uk**

Canolfan CFfI Ynys Môn, Cae Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW